Pa gamau gall yr Asiantaeth Cynnal Plant eu cymryd os na fydd rhieni'n talu?

asiantaeth cynnal plant

Gorfodi

Am beth mae'r daflen hon yn sôn?

Mae'r daflen hon yn egluro pa gamau y byddwn yn eu cymryd os na fydd rhieni dibreswyl yn talu'r gynhaliaeth plant a drefnir drwy'r CSA. Mae'n egluro'r pwerau sydd gennym yng Nghymru a Lloegr, a'r pwerau gwahanol sydd gennym yn yr Alban.

Yn y daflen hon, defnyddiwn rai termau safonol i egluro ein gwasanaethau a'r ffordd rydym yn gweithio. Mae'r eirfa ar y diwedd yn egluro'r rhain.

Gwybodaeth bwysig am y daflen hon

Canllaw yn unig yw'r daflen hon ac nid yw'n cynnwys pob sefyllfa. Rydym wedi gwneud ein gorau i sicrhau fod y wybodaeth yn y daflen hon yn gywir fel ar 12 Ebrill 2010, ond efallai nad yw'n adlewyrchu newidiadau i'r gyfraith neu ein gweithdrefnau ar ôl y dyddiad hwn. Efallai y byddwch am gael cyngor annibynnol cyn gwneud unrhyw benderfyniad ariannol yn seiliedig ar y daflen hon.

Amdanom ni

Yr Asiantaeth Cynnal Plant (CSA) yw gwasanaeth cynhaliaeth plant y Llywodraeth. Caiff ei ddarparu gan y Comisiwn Trefnu a Gorfodi Cynhaliaeth Plant.

Ein rôl yw sicrhau bod rhieni sy'n byw ar wahân i'w plant yn cyfrannu'n ariannol at eu cadw drwy dalu cynhaliaeth plant.

Rydym yn defnyddio proses safonol i weithio allan faint o gynhaliaeth plant sydd angen ei dalu ym mhob achos ac wedyn yn rheoli'r taliadau. Gallwn hefyd gymryd camau cyfreithiol os nad yw'r swm cywir o arian yn cael ei dalu ar yr amser iawn.

Am fwy o help a gwybodaeth, ewch i'n gwefan **www.asiantaethcynnalplant.gov.uk** neu ffoniwch ni ar **0845 713 3133** neu **0845 713 8924** (ffôn testun). Neu gallwch ffonio ein llinell gymorth Gymraeg ar **0845 713 8091**. Ewch i dudalen 25 am fanylion am gostau galwadau ac amseroedd agor.

Os ydych am wneud trefniadau preifat ar gyfer cynhaliaeth plant, yn hytrach na drwy'r CSA, cysylltwch ag Opsiynau Cynhaliaeth Plant am wybodaeth ddiduedd a chymorth. Ewch i'w gwefan yn **www.cmoptions.org** neu gallwch eu ffonio ar **0800 988 0988** neu **0800 988 9888** (ffôn testun).

Cynnwys

Pa gamau gall y CSA eu cymryd os nad yw'r rhiant dibreswyl yn talu cynhaliaeth plant? 6

Pa newidiadau i'm hamgylchiadau sydd raid i mi ddweud amdanynt wrth y CSA? 8

Sut mae'r CSA yn cymryd arian yn uniongyrchol o enillion y rhiant dibreswyl? 10

Sut mae'r CSA yn cymryd arian o gyfrif banc neu gymdeithas adeiladu'r rhiant dibreswyl? 11

Sut gall y CSA gymryd camau drwy'r llysoedd? 12

Pa gamau gall y CSA eu cymryd os yw'r rhiant dibreswyl yn byw yng Nghymru neu yn Lloegr? 14

Pa gamau gall y CSA eu cymryd os yw'r rhiant dibreswyl yn byw yn yr Alban? 17

Pryd gallai rhiant dibreswyl golli eu trwydded gyrru neu gael eu hanfon i'r carchar? 20

Pa mor aml bydd y CSA yn defnyddio'r pwerau hyn? 23

A all rhiant dibreswyl gael help a chyngor cyfreithiol? 24

Ble gallaf gael mwy o help a gwybodaeth? 25

Pa gamau gall y CSA eu cymryd os nad yw'r rhiant dibreswyl yn talu cynhaliaeth plant?

Os nad yw rhiant dibreswyl sydd yn gorfod talu cynhaliaeth plant drwom ni yn talu'r swm cywir o gynhaliaeth plant ar yr adeg gywir, byddwn yn cymryd camau i gael unrhyw arian sy'n ddyledus i riant â gofal. Mae hyn yn cynnwys os ydych wedi trefnu cynhaliaeth plant drwom ni ac mae'n ofynnol i'r rhiant dibreswyl dalu'r rhiant â gofal yn uniongyrchol.

Gallwn:

- cymryd arian yn syth o enillion rhiant dibreswyl os yw'r rhiant dibreswyl mewn cyflogaeth ac nad yw eisoes yn talu fel hyn,
- cymryd arian yn syth o gyfrif banc neu gymdeithas adeiladu'r rhiant dibreswyl, neu
- cymryd camau drwy'r llysoedd.

Gallwn ddefnyddio mwy nag un cam ar y tro. Bydd y cam a gymerwn yn dibynnu ar yr amgylchiadau.

Gall cymryd camau drwy'r llysoedd fod yn gostus a gallai olygu bod y rhiant dibreswyl yn:

- gorfod talu eu costau cyfreithiol eu hunain a'n rhai ni, yn ogystal ag unrhyw gynhaliaeth plant sy'n ddyledus ganddynt
- cael eu gorfodi i werthu eu cartref neu asedau eraill
- colli eu trwydded gyrru am hyd at 2 flynedd
- mynd i'r carchar

Os ydych yn rhiant dibreswyl a'ch bod yn gwybod y byddwch yn hwyr yn gwneud taliad, dylech ddweud wrthym ar unwaith. Os byddwch yn methu taliad cynhaliaeth plant, gallwch ei dalu dros y ffôn gan ddefnyddio cerdyn debyd neu gredyd, neu fancio ar-lein. Os byddwch yn gwneud hyn, ni fyddwn yn cymryd camau yn eich erbyn.

Gallwn gymryd camau cyn gynted ag y byddwn yn ymwybodol fod y rhiant dibreswyl wedi methu â chadw at y trefniadau talu y cytunwyd arnynt, a heb ymateb i unrhyw rybuddion rydym wedi eu rhoi iddynt. Gallwn hefyd gymryd camau trwy'r llysoedd os bydd rhiant dibreswyl yn osgoi talu cynhaliaeth plant drwy:

- methu â rhoi gwybodaeth i ni pan ofynnwn amdani, neu
- rhoi gwybodaeth i ni y gwyddant i fod yn ffug.

Beth fydd yn digwydd os na fydd y rhiant dibreswyl yn talu cynhaliaeth plant ar amser mewn cytundeb preifat?

Ni allwn gymryd camau yn erbyn diffyg talu mewn cytundeb preifat. Ond gall y rhiant â gofal gysylltu â ni a gofyn am gael trefnu eu cynhaliaeth plant drwom ni yn hytrach na pharhau gyda'r cytundeb preifat. Yna, byddwn yn dilyn ein proses safonol ar gyfer gweithio allan faint ddylai'r gynhaliaeth plant fod a phryd y dylai taliadau gael eu gwneud. Os na fydd y rhiant dibreswyl yn talu ar amser ac yn llawn, gallwn weithredu.

Pa newidiadau i'm hamgylchiadau sy'n rhaid i mi ddweud wrth y CSA amdanynt?

Os bydd amgylchiadau'r naill riant yn newid, gall olygu y bydd angen newid y swm o gynhaliaeth sy'n rhaid ei dalu. Felly dylech ddweud wrthym os oes newid i unrhyw wybodaeth a roddoch i ni er mwyn gweithio allan cynhaliaeth plant, fel swm yr incwm mae'r rhiant dibreswyl yn ei gael.

Yn enwedig, os mai chi yw'r rhiant dibreswyl, **rhaid** i chi ddweud wrthym os:

- bydd eich cyfeiriad yn newid (**rhaid** i chi ddweud wrthym am hyn o fewn 7 diwrnod o'r newid)
- ydych yn talu cynhaliaeth plant drwy orchymyn didynnu o enillion a'ch bod yn gadael eich swydd. **Rhaid** i chi ddweud wrthym:
  - enw a chyfeiriad eich cyflogwr newydd (os o gwbl)
  - faint y disgwyliwch ei ennill, a'ch
  - rhif cyflogres (os o gwbl).

Os mai chi yw'r rhiant â gofal, **rhaid** i chi ddweud wrthym os oes newid i'r:

- nifer o blant sy'n byw gyda chi ac sy'n rhaid i'r rhiant dibreswyl dalu cynhaliaeth plant ar eu cyfer, neu
- nifer y nosweithiau mae plentyn yn aros dros nos gyda'r rhiant dibreswyl yn rheolaidd.

Os byddwch yn methu â rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnom, neu os byddwch yn rhoi gwybodaeth i ni y gwyddoch sy'n ffug, gallwn fynd a chi i'r llys a gallech gael dirwy o hyd at £1,000. Mae hyn yn gymwys i unrhyw berson neu gorff sy'n ofynnol iddynt, yn ôl y gyfraith, i roi gwybodaeth – fel cyflogwyr a chyfrifwyr yn ogystal â rhieni.

Ni fydd pob newid mewn amgylchiadau yn golygu y byddwn angen newid y swm o gynhaliaeth plant sy'n rhaid ei dalu. Efallai na fyddwn yn newid swm y gynhaliaeth plant os bydd y newid i incwm wythnosol net rheolaidd y rhiant dibreswyl yn llai na 5%.

Sut mae'r CSA yn cymryd arian yn uniongyrchol o enillion y rhiant dibreswyl?

Os yw'r rhiant dibreswyl yn gweithio i gyflogwr, neu'n cael pensiwn galwedigaethol, gallwn gymryd cynhaliaeth plant yn uniongyrchol o'u henillion neu bensiwn, drwy ddefnyddio **'gorchymyn didynnu o enillion'**. Mae hwn yn un o'r prif ddulliau talu y gall rhieni dibreswyl cyflogedig eu dewis. Os nad ydynt wedi dewis talu fel hyn, yna fel arfer, dyma'r cam cyntaf y byddwn yn ei gymryd os bydd rhiant dibreswyl cyflogedig yn methu taliadau ac yn methu rhoi rheswm da am hynny, neu os byddant yn methu â chytuno gyda ni ar ddull talu.

Byddwn yn dweud wrth gyflogwr y rhiant dibreswyl faint i'w gymryd o'u henillion neu bensiwn. Rhaid i'w cyflogwr gymryd y swm hwn a'i basio ymlaen atom ar ran y rhiant dibreswyl.

Os bydd y cyflogwr yn methu â gwneud hyn heb reswm da, gallwn fynd â hwy i'r llys a gellir eu dirwyo.

Os yw'r rhiant dibreswyl yn cael budd-daliadau, Pensiwn y Wladwriaeth neu bensiwn Rhyfel, fel arfer byddwn yn cymryd y swm sy'n ddyledus yn uniongyrchol o'u budd-dal neu eu pensiwn.

Cewch wybod mwy am orchmynion didynnu o enillion a sut maent yn gweithio yn ein taflen *Sut gallaf dalu cynhaliaeth plant?* (CSL305W). Ewch i'r dudalen gefn am fanylion.

Sut mae'r CSA yn cymryd arian o gyfrif banc neu gymdeithas adeiladu'r rhiant dibreswyl?

Gallwn gymryd cynhaliaeth plant yn uniongyrchol o gyfrif banc neu gymdeithas adeiladu'r rhiant dibreswyl. Nid oes raid i ni gael cytundeb y rhiant dibreswyl i wneud hyn na gofyn i'r llys am ganiatâd.

Rydym yn gofyn i fanc neu gymdeithas adeiladu'r rhiant dibreswyl gymryd arian drwy anfon **gorchymyn didynnu** atynt. Gallwn sefydlu gorchymyn didynnu i gymryd taliadau rheolaidd neu un cyfandaliad. Gall y banc neu gymdeithas adeiladu godi tâl gweinyddu am bob didyniad byddant yn ei wneud.

Os byddwn yn defnyddio gorchymyn didynnu, gallwn hefyd gymryd camau eraill os bydd angen.

Sut gall y CSA gymryd camau drwy'r llysoedd?

Os trefnir cynhaliaeth plant drwom ni, gallwn gymryd camau drwy'r llysoedd i adennill unrhyw ddyled sy'n daladwy gan riant dibreswyl am nad ydynt wedi talu cynhaliaeth plant neu am nad ydynt wedi talu digon o gynhaliaeth plant.

Gall cymryd camau drwy'r llysoedd fod yn gostus a gallai olygu bod y rhiant dibreswyl yn:

- gorfod talu eu costau cyfreithiol eu hunain a'n rhai ni, yn ogystal â'r gynhaliaeth plant sy'n ddyledus ganddynt
- colli eu trwydded gyrru am hyd at 2 flynedd
- mynd i'r carchar.

Y cam cyntaf a gymerwn yw gwneud cais am **orchymyn atebolrwydd** am y gynhaliaeth plant a fethwyd. Mae hyn yn dangos bod y gyfraith yn cydnabod bod dyled i'w thalu, ac mae'n rhoi awdurdod y llys i ni gymryd camau er mwyn cael yr arian.

Byddwn yn gwneud cais i'r llys ynadon yng Nghymru a Lloegr a llys y siryf yn yr Alban am orchymyn atebolrwydd. Yn yr Alban, os nad yw'r rhiant dibreswyl yn gwrthwynebu ein cais, gallai llys y siryf roi'r gorchymyn atebolrwydd heb wrandawiad.

Os nad yw llys yn rhoi gorchymyn atebolrwydd, a bod gennym resymau da, gallwn apelio yn erbyn y penderfyniad.

Beth sy'n digwydd ar ôl i'r llysoedd roi gorchymyn atebolrwydd i'r CSA?

Mae nifer o opsiynau ar gael gan gynnwys cymryd camau pellach drwy'r llys. Mae'r camau y gallwn eu cymryd wedi eu nodi ar y tudalennau canlynol. Nid yw'r camau hyn mewn unrhyw drefn benodol ac yn aml, gallwn gymryd mwy nag un cam ar y tro. Bydd y camau a gymerwn yn dibynnu ar ba un a yw'r rhiant dibreswyl yn byw yng Nghymru neu Loegr, neu yn yr Alban.

Pa gamau gall y CSA eu cymryd os yw'r rhiant dibreswyl yn byw yng Nghymru neu yn Lloegr?

Beilïaid

Gall beilïaid atafaelu eiddo rhiant dibreswyl a'u gwerthu er mwyn cael yr arian ddyled. Gall y beilïaid hefyd ychwanegu eu costau hwy at y ddyled.

Cofrestr Dyfarniadau, Gorchmynion a Dirwyon

Gallwn nodi gorchymyn atebolrwydd ar y Gofrestr Dyfarniadau, Gorchmynion a Dirwyon. Gellir defnyddio'r gofrestr hon gan asiantaethau cyfeirio credyd er mwyn sefydlu beth yw statws credyd rhywun, sy'n cael effaith ar eu gallu i gael arian fel benthyciadau, morgeisi a chardiau credyd. Gall hefyd effeithio ar aelodaeth rhywun os ydynt am berthyn i sefydliad proffesiynol.

Os oes gan y rhiant dibreswyl eu busnes eu hunain a bod eu darparwyr yn ymwybodol bod y rhiant ar y rhestr hon, gallai pryd a sut y gall y rhiant dalu am bethau meant eu hangen ar gyfer eu busnes newid.

Gorchymyn dyled trydydd parti

Gall llys sirol roi gorchymyn dyled trydydd parti er mwyn dweud wrth unigolyn, neu fusnes fel banc, cymdeithas adeiladu neu Swyddfa'r Post, i rewi arian mewn cyfrif sydd yn enw rhiant dibreswyl ar ddyddiad penodol.

Unwaith y bydd yr arian wedi'i rewi, ni all y rhiant dibreswyl ddefnyddio'r arian hwnnw heb ganiatâd y llys. Yna gall y llys sirol orchymyn yr unigolyn neu'r busnes i dalu'r arian a ddengys ar y gorchymyn dyled trydydd parti i ni.

Gorchymyn talu

Gallwn wneud cais i'r llys sirol i wneud gorchymyn talu.
Os yw'r rhiant dibreswyl yn berchen tŷ neu dir, gallwn gofrestru gyda'r Gofrestrfa Dir bod gennym orchymyn talu yn erbyn y rhiant dibreswyl. Gallwn hefyd gofrestru gorchymyn talu os oes gan y rhiant dibreswyl unrhyw eiddo neu asedau eraill fel stociau a chyfranddaliadau neu log mewn ymddiriedolaeth.

Pan fydd yr eiddo neu'r asedau hynny yn cael eu gwerthu, dylai unrhyw arian sydd yn weddill ar ôl talu unrhyw orchmynion neu daliadau eraill sydd â blaenoriaeth (fel morgais) gael ei dalu'n uniongyrchol i ni. Weithiau gallwn benderfynu gwneud cais i'r llys sirol am orchymyn gwerthu. Mae hyn yn gorfodi'r rhiant dibreswyl i werthu'r eiddo neu'r asedau fel y gallwn gael yr arian sy'n ddyledus.

Gallwn hefyd wneud cais am orchymyn talu ar eiddo y mae'r rhiant dibreswyl a rhywun arall yn gyd-berchen arno. Ond, pan gaiff yr eiddo hwnnw ei werthu, byddwn yn casglu'r gynhaliaeth plant o gyfran y rhiant dibreswyl o'r arian a gânt o'r gwerthiant.

Gorchymyn rhwystro camau osgoi

Gallwn wneud cais am orchymyn i rwystro camau osgoi os bydd gennym dystiolaeth bod rhiant dibreswyl sydd ag ôl-ddyledion:

- ar fin cael gwared ar ased, ac
- yn gwneud hyn er mwyn osgoi talu cynhaliaeth plant.

Byddwn yn gwneud cais am orchymyn i'r Uchel Lys (Llys y Sesiwn neu'r Siryf yn yr Alban) i rwystro'r rhiant dibreswyl rhag cael gwared ar yr ased.

Hefyd, os bydd gennym dystiolaeth bod yr ased wedi cael ei waredu yn barod er mwyn osgoi talu cynhaliaeth plant, gallwn wneud cais am orchymyn i geisio dychwelyd yr ased hwnnw. Byddai'r gorchymyn hwn yn gwrthdroi'r gwerthiant neu unrhyw drosglwyddiad o'r ased oni bai ei fod wedi cael ei brynu mewn pob ffydd.

Pa gamau gall y CSA eu cymryd os yw'r rhiant dibreswyl yn byw yn yr Alban?

Gorchymyn i dalu

Unwaith y byddwn wedi cael gorchymyn atebolrwydd, yna byddwn yn gofyn i'r llysoedd anfon gorchymyn i dalu ar ein rhan. Mae hyn yn rhoi 14 diwrnod i'r rhiant dibreswyl dalu'r arian sy'n ddyledus ganddynt, neu 28 diwrnod os ydynt yn byw y tu allan i'r DU dros dro. Os na fyddant yn talu, byddwn yn cymryd camau cyfreithiol pellach i gael yr arian.

Byddwn yn cymryd y camau y credwn fydd fwyaf effeithiol ymhob achos unigol. Gallwn ddefnyddio mwy nag un o'n pwerau ar y tro.

Restiad

Mae restiad yn rhewi arian sy'n eiddo i'r rhiant dibreswyl neu sy'n ddyledus iddynt ar ddyddiad penodol. Mae hyn yn cynnwys rhwystro rhiant dibreswyl rhag gallu cael arian sy'n ddyledus iddynt neu ddefnyddio arian o'u cyfrif banc, cymdeithas adeiladu neu gyfrif Swyddfa'r Post. Unwaith y bydd yr arian wedi'i rewi, gofynnwn i'r rhiant dibreswyl lofnodi llythyr y byddwn yn ei anfon at yr unigolyn neu fusnes, banc, cymdeithas adeiladu neu Swyddfa'r Post sy'n dweud wrthynt am dalu'r swm sy'n ddyledus ar y gorchymyn atebolrwydd. Os na fydd rhiant dibreswyl yn gwneud hyn, byddwn yn gofyn i'r llys orchymyn i'r rhiant dibreswyl wneud y taliad, ac unrhyw gostau gorfodi, i ni.

Atafael ac arwerthu

'Atafaeliad' yw pan fo swyddogion y siryf yn rhestru ac yn rhoi gwerth i eiddo:

- mae rhiant dibreswyl yn berchen arno
- sydd yn cael ei gadw y tu allan i'w cartref, ac
- y gellir ei symud.

Gallai hyn cynnwys ceir neu feiciau modur, neu gall fod yn cynnwys garej neu adeilad allanol.

Os yw rhiant dibreswyl yn hunangyflogedig, gall swyddog y siryf gynnal 'atafaeliad' yn eu man busnes.

Yna gwaherddir y rhiant dibreswyl rhag gwerthu neu gael gwared ar unrhyw eitem ar y rhestr. Wedyn gall yr eitemau ar y rhestr gael eu gwerthu mewn arwerthiant cyhoeddus er mwyn cael yr arian sy'n ddyledus gan y rhiant dibreswyl am gynhaliaeth plant.

Os na allwn gael yr arian sy'n ddyledus gan y rhiant dibreswyl yn y ffordd hon, gallwn wneud cais am 'atafaeliad eithriadol' ac arwerthiant. O dan 'atafaeliad eithriadol', mae swyddogion y siryf yn cymryd ac yn rhoi gwerth i eiddo:

- mae rhiant dibreswyl yn berchen arno
- sydd yn cael ei gadw y tu fewn i'w cartref, ac
- y gellir ei symud.

Gwaharddiad

Gellir cofrestru'r swm ar y gorchymyn atebolrwydd yn erbyn y rhiant dibreswyl i'w hatal rhag gwerthu neu drosglwyddo unrhyw 'eiddo etifeddadwy' y maent yn berchen arnynt. Gelwir hyn yn 'waharddiad'.

Mae eiddo etifeddadwy yn cynnwys tai, modurdai, safleoedd busnes a thir. Mae hyn yn golygu na all y rhiant dibreswyl werthu na throsglwyddo'r eiddo etifeddadwy hyd nes y byddant yn talu'r arian i ni.

Pryd gallai rhiant dibreswyl golli eu trwydded gyrru neu gael eu hanfon i'r carchar?

Os yw'r rhiant dibreswyl wedi gwrthod talu'r gynhaliaeth plant sy'n ddyledus ganddynt, gallwn wneud cais i'r llys am:

- **gorchymyn gwahardd** – cymryd trwydded gyrru'r rhiant dibreswyl oddi arnynt neu eu hatal rhag cael trwydded gyrru am hyd at 2 flynedd
- **gwarant o ymrwymiad** – i anfon rhiant dibreswyl i'r carchar am **hyd at 6 wythnos**.

Hyd yn oed os caiff y rhiant dibreswyl eu gwahardd rhag gyrru neu eu hanfon i'r carchar, bydd dal yn rhaid iddynt dalu'r holl arian sy'n ddyledus ganddynt.

Dim ond pan na fydd ffyrdd eraill o gael taliadau wedi gweithio y byddwn yn defnyddio'r pwerau hyn.

Beth sy'n digwydd os caiff rhiant dibreswyl eu gwahardd rhag gyrru ac yna'n talu beth sy'n ddyledus ganddynt?

Os bydd y rhiant dibreswyl yn talu'r swm llawn sy'n ddyledus ganddynt, gall y rhiant dibreswyl neu ni wneud cais i'r llys ganslo'r gorchymyn gwahardd. Os bydd hyn yn digwydd, gall y rhiant dibreswyl wedyn wneud cais i'r Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau (DVLA) i gael eu trwydded gyrru yn ôl.

Os mai dim ond rhan o'r swm sy'n ddyledus ganddynt y bydd y rhiant dibreswyl yn ei dalu, gallwn ni neu'r rhiant dibreswyl naill ai wneud cais i'r llys am orchymyn gwahardd am gyfnod byrrach neu wneud cais i ganslo'r gorchymyn gwahardd.

Os nad ydynt wedi talu unrhyw swm o hyd ar ddiwedd y gorchymyn gwahardd, gallwn wneud cais am gyfnod gwahardd arall neu ddedfryd i'r carchar.

Beth fydd yn digwydd os anfonir rhiant dibreswyl i'r carchar a'u bod wedyn yn talu'r hyn sy'n ddyledus ganddynt?

Os bydd y rhiant dibreswyl yn talu'r swm llawn sy'n ddyledus, cânt eu rhyddhau ar unwaith.

Os bydd y rhiant dibreswyl ond yn talu rhan o'r swm sy'n ddyledus, gellir lleihau eu dedfryd o garchar.

Fodd bynnag, gallwn barhau i gymryd camau eraill i adennill y ddyled hon.

Os bydd dyled newydd yn cronni gan y rhiant dibreswyl (drwy beidio â thalu cynhaliaeth eto), gallwn ddychwelyd i'r llys a gallant golli eu trwydded gyrru, neu gael eu hanfon i'r carchar, am bob dyled newydd.

Beth fydd yn digwydd os bydd rhiant dibreswyl yn marw tra bo cynhaliaeth plant yn ddyledus ganddynt?

Os bydd rhiant dibreswyl yn marw, a bod cynhaliaeth plant yn ddyledus ganddynt, efallai y gallwn wneud cais am y swm sy'n ddyledus o'u hystâd.

Byddwn bob amser yn gofyn i'r rhiant â gofal cyn i ni wneud hyn.

Pa mor aml mae'r CSA yn defnyddio'r pwerau hyn?

Rydym yn defnyddio'n pwerau yn ddyddiol i sicrhau bod rhieni dibreswyl yn talu'r gynhaliaeth plant sydd yn ddyledus ganddynt.

Rhwng Tachwedd 2008 a Hydref 2009 ym Mhrydain Fawr:

- anfonwyd dros 65,000 o orchmynion didynnu o enillion newydd at gyflogwyr i gymryd arian o enillion neu bensiwn rhieni dibreswyl
- dyfarnwyd dros 26,000 o orchmynion atebolrwydd, a
- derbyniodd dros 800 o rieni dibreswyl ddedfryd carcharu di-oed neu ataliedig.

Yn ystod yr un cyfnod, bu i'r camau a gymerwyd gennym arwain at:

- dros 100 o orchmynion dyfarnu llys sirol (Cofrestr Dyfarniadau, Gorchmynion a Dirwyon)
- dros 2,000 o orchmynion dyled trydydd parti, a
- dros 3,000 o orchmynion talu.

A all rhiant dibreswyl gael help a chyngor cyfreithiol?

Gallwch, fe allwch gael help a chyngor gan gyfreithiwr.

Gall cyngor cyffredinol fod ar gael am ddim. Neu, os ydych yn gymwys, efallai byddwch yn gallu cael cyngor penodol o dan y cynllun Cronfa Cyfreithiol Gymunedol neu gynlluniau cymorth cyfreithiol eraill. Bydd cyfreithiwr yn gallu eich cynghori os yw hyn yn gymwys i gael help ariannol yn eich achos chi. Os na fyddwch yn gymwys i gael cymorth ariannol efallai bydd rhaid i chi dalu holl gostau'r cyfreithiwr.

Gall canolfan gynghori fel Cyngor Ar Bopeth neu ganolfan cyfreithiol leol gynnig cyngor am ddim i chi. Gallwch gael hyd i restr o'u cyfeiriadau yn y llyfr ffôn, yng nghyfeirlyfr lleol Thomson, yn yr Yellow Pages, neu yn y llyfrgell.

Ble gallaf gael mwy o help a gwybodaeth?

Os ydych eisiau gwybod mwy am gynhaliaeth plant a sut rydym yn ei gweithio allan, ewch i'n gwefan yn **www.asiantaethcynnalplant.gov.uk**. Gallwch lawr-lwytho ein taflenni o'r wefan.

Os byddwch am siarad gyda rhywun am eich achos, dylech ffonio'r rhif ar ochr dde top y llythyr diwethaf a dderbynioch gennym. Hwn yw rhif y swyddfa sy'n delio â'ch achos. Neu, gallwch ffonio ein llinell gymorth Gymraeg ar **0845 713 8091** sydd ar agor o 9am i 5pm o ddydd Llun i ddydd Gwener.

Os nad oes gennych achos gyda ni neu os na allwch ddod o hyd i lythyr diweddar, gallwch ffonio'n llinell gymorth genedlaethol. Ni fydd gan y person sy'n cymryd yr alwad eich manylion personol ac felly ni allant ateb cwestiynau penodol am eich achos. Fodd bynnag, gallant eich helpu gydag unrhyw beth cyffredinol sy'n ymwneud â chynhaliaeth plant. Gallant hefyd roi rhif ffôn y swyddfa sy'n delio â'ch achos os byddwch am ofyn cwestiynau penodol.

Gallwch ffonio'r llinell gymorth genedlaethol ar **0845 713 3133** o 8am i 8pm o ddydd Llun i ddydd Gwener, ac o 9am i 5pm ar ddydd Sadwrn. Neu, gallwch ffonio ein llinell gymorth Gymraeg ar **0845 713 8091** sydd ar agor o 9am i 5pm o ddydd Llun i ddydd Gwener.

Sicrhewch fod eich Rhif Yswiriant Gwladol wrth law pan fyddwch yn ffonio.

Efallai y caiff rhai galwadau eu recordio er mwyn i ni gadw golwg ar ein gwasanaethau a hyfforddi staff.

Gwasanaethau ffôn testun

Os oes gennych anawsterau gyda siarad neu glywed, mae gwasanaeth ffôn testun ar gael ar **0845 713 8924**. Gallwch gysylltu â ni yn Gymraeg ar ffôn testun hefyd – y rhif yw **0845 713 8099**.

Mae ffôn testun ar gyfer pobl sy'n ei chael yn anodd i siarad neu glywed yn glir. Os nad oes gennych ffôn testun, efallai y bydd un ar gael mewn rhai llyfrgelloedd neu swyddfeydd Cyngor Ar Bopeth. **Nid** yw ffôn testun yn gallu derbyn negeseuon testun o ffôn symudol.

Ieithoedd eraill

Os nad Cymraeg neu Saesneg yw eich iaith gyntaf, gallwch ddefnyddio eich cyfieithydd eich hun neu un a ddarperir gennym ni.

Costau ffonio

Ni ddylai galwadau o linellau daear BT i rifau **0845** gostio mwy na 4c y munud. Efallai y bydd yn rhaid i chi dalu mwy os byddwch yn defnyddio cwmni ffôn arall neu ffôn symudol, neu os ydych yn ffonio o dramor. Gall galwadau o ffôn symudol gostio hyd at 40c y munud, felly dylech gysylltu â darparwr eich gwasanaeth i gael gwybod faint yw cost y galwadau hyn.

Gwybodaeth ar ffurfiau eraill

Mae'r daflen hon hefyd ar gael mewn ieithoedd eraill, mewn Braille ac ar dâp sain. Gallwch gael gwybodaeth ar y ffurfiau hyn ar-lein neu drwy gysylltu â'n llinellau cymorth.

Mae gennym hefyd fersiynau print bras o'r daflen hon sydd ar gael i chi ei lawr-lwytho o'n gwefan, sef **www.asiantaethcynnalplant.gov.uk**.

Sut gall achos cynhaliaeth plant symud yn ei flaen?

Mae'r diagram hwn yn dangos sut y gall achos cynhaliaeth plant symud yn ei flaen. Mae'r daflen hon yn canolbwyntio ar ran o'r broses a amlygir yma.

Gwybodaeth a chyfarwyddyd

Gall y CSA ddarparu gwybodaeth am sut mae'r broses yn gweithio, beth fydd angen i rieni ei wneud a beth allai fod yn swm derbyniol o gynhaliaeth yn eu hachos hwy.

Gwneud cais

Bydd achos yn cychwyn yn swyddogol pan fydd rhiant yn gwneud cais i ni drefnu taliadau cynhaliaeth plant.

Os bydd newid ym mywyd y naill riant neu'r llall, gall hyn effeithio ar y swm o gynhaliaeth plant sydd raid ei dalu, gallwn ail edrych ar eich achos – felly rhowch wybod i ni.

Casglu gwybodaeth a chyfrifo

Er mwyn gweithio allan faint o gynhaliaeth plant y dylid ei dalu, mae'n angenrheidiol i ni gasglu gwybodaeth bwysig. Byddwn yn gofyn i'r ddau riant ddarparu gwybodaeth benodol. Pan fyddwn wedi cael hyn, byddwn yn gweithio'r gynhaliaeth plant allan.

Talu

Bydd y rhiant dibreswyl yn talu'r swm a gytunwyd ar y dyddiad y cytunwyd ac yn y ffordd a gytunwyd. Gall hyn fod yn uniongyrchol i'r rhiant â gofal, neu i ni. Byddwn wedyn yn pasio'r taliadau ymlaen.

Gorfodi

Os na wneir taliadau ar amser, gallwn gymryd camau i orfodi taliadau.

Ein taflenni

Beth yw cynhaliaeth plant a sut mae'n effeithio arnaf i?
(Cyfeirnod: CSL301W) I bob rhiant

Sut gallaf gwyno am y gwasanaeth a gaf gan yr Asiantaeth Cynnal Plant?
(Cyfeirnod: CSL308W) I bob rhiant

Sut caiff cynhaliaeth plant ei gweithio allan?
(Cyfeirnod: CSL303W) I bob rhiant

Beth fydd yn digwydd os bydd rhywun yn gwadu bod yn rhiant i blentyn?
(Cyfeirnod: CSL304W) I bob rhiant

Sut gallaf apelio yn erbyn penderfyniad cynhaliaeth plant?
(Cyfeirnod: CSL307W) I bob rhiant

Mae fy achos yn symud i'r cynllun cynhaliaeth plant a gyflwynwyd yn 2003 – beth fydd yn newid?
(Cyfeirnod: CSL310W) I unrhyw riant y mae eu hachos yn symud i'r cynllun presennol

Sut mae'r Asiantaeth Cynnal Plant yn defnyddio ac yn storio gwybodaeth?
(Cyfeirnod: CSL311W) I bob rhiant

Sut gallaf dalu cynhaliaeth plant?
(Cyfeirnod: CSL305W) I rieni dibreswyl

Sut byddaf yn cael cynhaliaeth plant?
(Cyfeirnod: CSL314W) I rieni â gofal

Pa gamau gall yr Asiantaeth Cynnal Plant eu cymryd os na fydd rhieni'n talu?
(Cyfeirnod: CSL306W) I bob rhiant

Geirfa

Atafael ac arwerthu

Gallwn atafael ac arwerthu yn yr Alban. Bydd swyddogion y Siryf yn rhestru ac yn prisio eitemau:

- sy'n berchen i'r rhiant dibreswyl
- sy'n cael eu cadw tu allan i'w cartref, ac
- y gellir eu symud.

Yna gellir gwerthu'r eitemau ar y rhestr mewn arwerthiant cyhoeddus er mwyn cael yr arian sy'n ddyledus gan y rhiant dibreswyl am gynhaliaeth plant.

Cynhaliaeth plant

Arian a delir gan y rhiant dibreswyl i'r rhiant â gofal i helpu i dalu am gostau byw eu plentyn o ddydd i ddydd.

Gorchymyn rhwystro camau osgoi

Gorchymyn a wneir gan yr Uchel Lys (Llys y Sesiwn neu'r Siryf yn yr Alban) i rwystro rhiant dibreswyl rhag trosglwyddo neu werthu ased er mwyn osgoi talu cynhaliaeth plant neu i wrthdroi trosglwyddiad neu werthiant o'r fath.

Gorchymyn atebolrwydd

Mae gorchymyn atebolrwydd yn cydnabod yn gyfreithiol bod dyled i'w thalu. Mae'n caniatáu i ni gymryd camau pellach i gael yr arian sy'n ddyledus. Rhaid i ni gael gorchymyn atebolrwydd cyn y gallwn gymryd camau pellach yn y llys.

Gorchymyn didynnu o enillion

Dyma un o'r ffyrdd arferol rydym yn ei ddefnyddio i drefnu taliadau os bydd y rhiant dibreswyl yn gweithio i gyflogwr. Trwy orchymyn didynnu o enillion, gofynnwn i gyflogwr y rhiant dibreswyl i gymryd cynhaliaeth plant yn uniongyrchol o enillion y rhiant dibreswyl a'i hanfon atom ni.

Gallwn hefyd drefnu gorchymyn didynnu o enillion os bydd y rhiant dibreswyl yn gweithio i gyflogwr a'i bod heb gadw at ddulliau eraill o dalu neu eu bod wedi methu cytuno ar ffordd o dalu.

Gorchymyn didynnu

Dyma sut rydym yn cymryd y gynhaliaeth plant sy'n ddyledus gan y rhiant dibreswyl, yn uniongyrchol o'u cyfrif banc neu gymdeithas adeiladu. Gallwn sefydlu gorchymyn didynnu i gymryd taliadau rheolaidd neu un cyfandaliad. Nid oes raid i ni gael cytundeb y rhiant dibreswyl i wneud hyn na gofyn i'r llys am ganiatâd. Gall y banc neu gymdeithas adeiladu godi tâl gweinyddu am bob didyniad byddant yn ei wneud.

Gorchymyn dyled trydydd parti

Gorchymyn y gall y llysoedd yng Nghymru neu Lloegr ei roi yn erbyn trydydd parti, fel banc neu gymdeithas adeiladu, er mwyn cymryd arian neu asedau eraill sydd ganddynt ac mae'r rhiant dibreswyl yn berchen arnynt. Gallwn wneud cais am orchmynion er mwyn atal rhiant dibreswyl rhag tynnu arian o'u cyfrif banc neu gymdeithas adeiladu. Telir yr arian o'r cyfrif i ni. Gellir hefyd anfon gorchymyn dyled trydydd parti at unrhyw un sydd arnynt arian i'r rhiant dibreswyl.

Gorchymyn i dalu

Gallwn roi gorchymyn i dalu yn yr Alban sy'n rhoi 14 diwrnod i'r rhiant dibreswyl dalu'r arian sy'n ddyledus ganddynt, neu 28 diwrnod os ydynt yn byw y tu allan i'r DU dros dro. Os na fyddant yn talu, byddwn yn cymryd camau pellach i gael yr arian.

Gorchymyn talu

Gorchymyn gan lys yng Nghymru a Lloegr sy'n gosod 'taliad' yn erbyn eiddo rhywun, fel tŷ neu ddarn o dir. Y swm sy'n ddyledus yw'r 'taliad'. Pan fo'r person y mae'r arian yn ddyledus ganddynt yn berchen stociau, cyfranddaliadau neu asedau eraill, gall y llys osod taliad yn erbyn y rhain hefyd. Mae hyn yn stopio'r perchenog rhag gwerthu eu heiddo, tir neu ased heb dalu'r hyn sy'n ddyledus ganddynt.

Gwaharddiad

Math o orchymyn y gallwn ei ddefnyddio yn yr Alban yw gwaharddiad. Mae'n stopio'r rhiant dibreswyl rhag gwerthu neu drosglwyddo unrhyw 'eiddo etifeddadwy' sy'n berchen iddynt hyd nes byddant wedi talu'r gynhaliaeth plant sy'n ddyledus ganddynt.

Plentyn

At ddibenion cynhaliaeth plant, mae plentyn yn golygu unrhyw un sydd o dan 16 oed, neu rywun sydd rhwng 16 a 19 oed:

- sydd ddim nawr, nac erioed wedi bod yn briod neu mewn perthynas sifil, ac
- sydd mewn addysg llawn amser nad yw'n addysg uwch.

Fodd bynnag, os yw budd-dal plant yn dal i gael ei dalu, gall rhywun o dan 19 oed gael eu hystyried fel plentyn at ddibenion cynhaliaeth plant hyd yn oed os ydynt mewn addysg llawn amser nad yw'n addysg uwch.

Restiad

Gallwn wneud cais am restiad yn yr Alban. Mae'n golygu 'rhewi' arian rhiant dibreswyl, neu arian sy'n ddyledus i'r rhiant dibreswyl ar ddyddiad arbennig hyd nes byddant yn talu'r swm sy'n ddyledus i ni ar y gorchymyn atebolrwydd am gynhaliaeth plant.

Rhiant â gofal

Y rhiant neu'r gofalwr sy'n byw gyda'r plentyn fel arfer ac sydd felly yn talu am y rhan fwyaf o gostau byw y plentyn o ddydd i ddydd. Mewn rhai achosion gall fod yn nain, taid, gwarcheidwad neu'n aelod arall o'r teulu – sef y 'person â gofal', yn hytrach na'r 'rhiant â gofal'.

Rhiant dibreswyl

Y rhiant nad yw'n byw gyda'r plentyn fel arfer.

Mae'r wybodaeth o daflenni'r CSA hefyd ar gael mewn ieithoedd eraill, mewn print bras, mewn Braille ac ar dâp sain.

Gallwch gael unrhyw o'n taflenni:

- trwy ffonio **0845 713 3133** (mae'r llinell ar agor o 8am i 8pm o ddydd Llun i ddydd Gwener ac o 9am i 5pm ar ddydd Sadwrn)
- trwy ffonio'r Uned Gymraeg ar **0845 713 8091** (mae'r llinell ar agor o 9am i 5pm o ddydd Llun i ddydd Gwener)
- drwy ddefnyddio ffôn testun ar **0845 713 8924**, neu
- o'n gwefan sef **www.asiantaethcynnalplant.gov.uk**

Ble rhoddir rhifau ffôn testun, mae'r rhain ar gyfer pobl sy'n ei chael yn anodd siarad neu glywed yn glir. Os nad oes gennych ffôn testun, efallai y bydd un ar gael mewn rhai llyfrgelloedd neu swyddfeydd Cyngor Ar Bopeth. Nid yw ffôn testun yn gallu derbyn negeseuon testun o ffôn symudol.

CSL306W
Ebrill 2010
(h) Asiantaeth Cynnal Plant
Gwasanaeth a ddarperir gan y Comisiwn Trefnu a Gorfodi Cynhaliaeth Plant
ISBN: 978-1-84695-944-8
Cyf COI: 296094